Emma Thomson

Gomer


# Siriol Swyn

Llyfr Llafar gyda chôd QR



# Cwsg Cythryblus

# Pryder Poli



Roedd y tywydd yn fendigedig yn Nhre'r Blodau. Eisteddai Siriol a'i ffrindiau ar stepen drws tŷ Poli, gan gynhesu eu hadenydd yn haul cynnar yr haf.

'O, mae hyn yn braf,' meddai Siriol, gan ymestyn ei choesau a

gadael i'w hesgid ddisgyn i'r llawr. 'Mae'r haf yn *bendant* ar y ffordd!'

'Roedd y rhagolygon yn dweud y byddai'r haf yma erbyn y penwythnos,' meddai Mali. 'Bydd y tywydd yn mynd yn boethach ac yn boethach. Bydd yn rhaid i mi wneud yn siŵr bod y planhigion yn cael digon o ddŵr.'

Cafodd Siriol syniad.

'Os yw hi am fod yn wirioneddol boeth ddydd Sadwrn, pam na wnawn ni hedfan i Draeth y Tlysau? Bydd awyr y môr yn brafiach.'

'Www dyna syniad da!' ebychodd y tylwyth teg gyda'i gilydd. Pawb ond Poli.

Sylwodd Mali fod Poli'n edrych yn bryderus.

'Beth sy'n bod, Pol?' gofynnodd. 'Dwyt ti ddim yn teimlo fel cael sblasio yn y môr a chosi dy draed yn y tywod?'

Edrychodd Poli ar ei thraed gan frathu'i gwefus. 'Ym . . . mae gen i . . . ym . . . waith cartref i'w orffen,' meddai.

Edrychodd y tylwyth teg arni'n syn. Oedd 'na ryw waith cartref roedden nhw i gyd wedi anghofio amdano? Poli oedd y gyntaf i gyflwyno'i gwaith cartref *bob tro,* tra bod Siriol yn tueddu i adael pethau tan y funud olaf.

'Ro'n i'n meddwl ein bod ni wedi gorffen popeth!' meddai Mali.

'O na!' ochneidiodd Moli, gan roi ei phen yn ei dwylo. 'Dim gwaith cartref eto!'





'Pa waith cartref sydd gen ti ar ôl?' holodd Siriol.

Roedd Poli yn dal i edrych yn anghysurus, ac meddai'n ddi-hid, 'Wel dim gwaith cartref yn union. Dwi'n ysgrifennu stori o'r enw *Straeon Dannedd*, jest am hwyl.'

Roedd pawb yn gwybod bod Poli'n ysu am gael bod yn Dylwythen Deg y Dannedd. Roedd hi'n un o'r tylwyth

teg hynny oedd yn dda ym *mhopeth* roedd hi'n ei wneud. Roedd Poli ar frig y dosbarth hanes am gofio enw pob tylwythen deg enwog. Yn y wers gemeg roedd ei llwch pefriog yn cynnwys fflach nad oedd yn debyg i unrhyw lwch arall. Ac yn y wers ddaearyddiaeth, roedd hi'n gallu dod o hyd i wledydd ar y map gyda'i llygaid ar gau. Ond ei ffefryn oedd unrhyw fath o wên. Gwên ddanheddog, gwên â bylchau, gwên lydan, gwên fach, *unrhyw* wên o gwbl!

'Diolch byth am hynna!' ebychodd Siriol, yn falch na fyddai ei diwrnod ar y traeth yn cael ei ddifetha gan y syniad o waith cartref ar y diwedd.




'Os wyt ti'n ei wneud am hwyl, does dim brys, felly – ac fe fyddi di'n gallu dod i'r traeth wedi'r cwbl!'

Roedd Poli'n dal i edrych braidd yn ddiflas.

'Mae'n ffordd bell i hedfan i'r traeth, ac os bydd hi'n boeth iawn byddwn ni'n flinedig iawn yn cyrraedd yno,' protestiodd.

Doedd Mali ddim yn deall y broblem.

'Bydd angen i mi godi'n gynnar i roi dŵr i'r planhigion,' meddai. 'Beth am i *bawb* godi'n gynnar a hedfan i'r traeth cyn iddi fynd yn rhy boeth?'

'Ond bydd y daith yn ôl yn hir hefyd!' meddai Poli'n betrus.

Doedd hyn ddim yn debyg i Poli o gwbl. Roedd Poli'n synhwyrol, ond roedd hi wastad yn awyddus i gael hwyl. Os oedden nhw'n mynd ar eu beic i rywle, byddai'r lleill wedi hen gychwyn tra bod Poli'n dal i wneud yn siŵr bod y gadwyn yn gweithio'n iawn. Fyddai Poli byth yn dechrau coginio

cyn gwneud yn siŵr bod y cynhwysion i gyd ganddi, tra byddai Siriol yn cyrraedd hanner ffordd drwy rysáit am gacen siocled cyn sylweddoli nad oedd ganddi unrhyw siocled. Ac er bod Poli'n wych mewn daearyddiaeth, byddai hi'n edrych ar y map *cyn* cychwyn ar daith, yn hytrach nag aros tan iddi fynd ar goll.



'Poli,' meddai Siriol, gan roi ei braich am ysgwydd ei ffrind, 'wyt ti'n cofio'r diwrnod bendigedig gawson ni ar y traeth y llynedd? Buon ni'n nofio yn y bae ac yn bwyta llond y lle o siwgr candi pinc a . . .'

Stopiodd Siriol yn sydyn. 'Dwi ddim yn cofio dy fod ti gyda ni y llynedd, a dweud y gwir – ond alla i ddim cofio pam.'

'Doeddet ti ddim yn teimlo'n dda,' meddai Moli.

'Wel dyna ni te!' meddai Mali.

'Fedri di ddim treulio blwyddyn gyfan arall heb drip i Draeth y Tlysau! Anghofia'r stori 'na. Paid â phoeni faint o amser gymerwn ni i gyrraedd yno. Fe wnawn ni i gyd gyfarfod yn gynnar bore fory a'i chychwyn hi am yr haul, y môr a'r siwgr candi!'

Roedd gan Mali ymbarél haul mawr, a phenderfynodd hi a Moli ei gario gyda'i gilydd. Dywedodd Siriol y byddai hi'n paratoi picnic. Roedd pawb am ddod â thywel, ac addawodd Moli ddod â digon o eli haul i bawb. Fe losgodd yn yr haul y llynedd, ac roedd hi'n benderfynol o beidio â gwneud hynny eto.

Penderfynodd Moli aros dros nos yn nhŷ Siriol, felly addawodd Mali guro ar eu drws yn y bore, ar y ffordd i nôl Poli. Roedd y trefniadau wedi'u gwneud!


* * *

Doedd Poli ddim yn gallu cysgu'r noson honno. Roedd yr ystafell yn boeth a hithau'n troi a throsi.

Un o'r gloch.

Dau o'r gloch.

Doedd hi ddim hyd yn oed yn teimlo'n gyfforddus gyda'i hoff obennydd.




Ac wrth iddi syrthio i gysgu o'r diwedd, dihunodd Poli'n sydyn.

Roedd ei chalon yn curo mor gyflym, roedd hi'n gallu ei chlywed.

Cododd a mynd at y ffenest. Roedd yr awyr yn llawn sêr arian a gwenai'r lleuad i lawr arni.

'O diar, lleuad,' ochneidiodd. 'Sut galla i ddweud fy nghyfrinach ofnadwy wrth fy ffrindiau?'

O'r diwedd llwyddodd Poli i gysgu, ond erbyn hynny roedd hi bron yn amser codi.

A phan ddaeth ei ffrindiau draw, roedd hi'n dal i gysgu'n drwm dan y blancedi a chlywodd hi mo gloch y drws yn canu.


Hedfanodd Mali i fyny at ffenest ystafell wely Poli a churo'r gwydr.

A hithau'n dal yn hanner cysgu, llusgodd Poli ei hun o'r gwely, rhwbio'i llygaid ac yn araf bach aeth i lawr i agor y drws.

Pan welodd yr ymbarél traeth mawr, llamodd ei stumog. Roedd y diwrnod wedi cyrraedd!

'Dwi ddim yn teimlo'n dda o gwbl,' meddai mewn llais gwan wrth ei ffrindiau. 'Ewch chi a mwynhau eich hunain ar y traeth. Dwi'n meddwl y byddai'n well i mi aros gartref.'

'Cysglyd wyt ti, 'na i gyd. Doedden ni ddim eisiau codi'n gynnar chwaith, ond rydyn ni'n teimlo'n iawn nawr,





on'd y'n ni, Moli?' meddai Siriol, gan roi hergwd i Moli. Roedd hi'n pwyso'n gysglyd yn erbyn postyn y drws, â'i llygaid ar gau.

Llusgodd Poli ei hun yn ôl i'r llofft i wisgo. Gan agor ei chwpwrdd dilliad, gwelodd ei gwisg nofio borffor, smotiog wedi'i phlygu'n dwt ar un o'r silffoedd. Efallai bod yna un cyfle arall!

Gan afael yn y wisg nofio, galwodd i lawr y grisiau, 'Mae gen i broblem! Dwi ddim yn gallu dod o hyd i fy ngwisg nofio! Ewch chi 'mlaen hebddo i!'

Ond cyn i Poli gael cyfle i guddio'r wisg nofio o dan fatres y gwely, roedd Siriol wedi hedfan i fyny'r grisiau ac yn sefyll yn yr ystafell wely.



Roedd Siriol wastad yn synnu wrth weld pa mor daclus oedd ystafell Poli. Roedd ei hadenydd i gyd wedi'u smwddio'n dwt a'u hongian yn y wardrob. Roedd ei photiau o lwch pefriog wedi'u selio â label bach a'u trefnu yn ôl eu cryfder. Roedd ei ffon hud ysgol wedi'i gosod ar ben ei bag, a hwnnw wedi'i bacio'n barod ar gyfer yr ysgol fore Llun. Ac er bod Poli newydd godi o'r gwely, roedd hyd yn oed hwnnw'n edrych yn ddestlus.

'Ti *yn* gysglyd!' chwarddodd Siriol, gan amneidio at y wisg nofio borffor. 'Edrycha! Mae hi yn dy law di!'

* * *



Roedd Tre'r Blodau yn disgleirio yn haul y bore. Wrth iddyn nhw hedfan dros y tai, roedd y tylwyth teg yn gallu gweld y dref yn dechrau dihuno oddi tanyn nhw.

Y tu allan i Seren, eu hoff gaffi, roedd tylwythen yn


gosod byrddau a chadeiriau. Roedd tylwythen arall yn gwneud ei rownd bapur newydd, gan geisio gwthio copi o'r *Adenydd Dyddiol* drwy'r blychau llythyrau. Roedd 'na dylwythen yn mynd yn araf i fyny Rhiw'r Plu ar ei beic, tra bod dwy dylwythen arall yn loncian i lawr.

Hedfanodd y ffrindiau dros Ysgol y Naw Dymuniad, gyda'i gatiau aur, a heibio i Goedwig y Naw Dymuniad, oedd ar dir yr ysgol.

Roedd Mali'n gallu gweld ei gardd nawr, a honno mor llawn o flodau nes ei bod yn edrych fel ffrwydrad o liw oddi tanyn nhw.

Wrth iddyn nhw adael Tre'r Blodau, roedd llai o dai i'w gweld, ac yn fuan roedd y ffrindiau'n hedfan dros gaeau gwyrdd oedd yn ymestyn o'u blaenau fel clytwaith hudol draw at y môr yn y pellter.


Ac o'r diwedd, fe welson nhw Draeth y Tlysau, yn edrych yn union



fel roedden nhw'n ei gofio'r llynedd. Tywod euraidd yn carpedu'r bae mewn hanner cylch enfawr, fel pe bai'n cofleidio'r môr disglair. Lle'r oedd yr haul yn cyffwrdd â'r môr, roedd fel pe bai sêr bach arian yn dawnsio ar y dŵr. Roedd mor brydferth.

* * *

Roedd Traeth y Tlysau eisoes yn dechrau prysuro. Roedd tylwyth teg yn newid o dan eu tywelion, yn sgipio'n ôl a blaen o'r siopau gyda bwcedi a rhawiau, yn gosod cadeiriau cynfas streipiog ac yn agor y cytiau traeth lliw hufen iâ.






Roedd Tylwyth Teg y Dŵr yn cerdded yn ôl a blaen ar hyd y traeth yn edrych yn brydferth a chrand yn eu gwisgoedd coch llachar ac yn cario'u hadenydd dŵr arbennig. Yr eiliad y byddai un ohonyn nhw'n gweld tylwythen deg mewn trafferth yn y dŵr, bydden nhw'n chwythu aer i'r adenydd ac yn hedfan allan yn syth i'r môr i'w helpu.

Doedd Siriol erioed wedi gweld yr un ohonyn nhw'n achub neb. Bob tro roedd hi wedi bod ar y traeth, roedden nhw'n treulio mwy o amser yn eistedd dan yr arwydd 'Tylwyth Teg Coll' yn yfed lemonêd ac yn bwyta hufen iâ nag yn achub tylwyth teg. Ond roedd hi'n falch eu bod nhw yno.

Gosododd Mali a Siriol yr ymbarél haul yn y tywod a rhoddodd pawb eu hadenydd i hongian arno. Gwisgodd pob un eu gwisg nofio, a gosod eu tywelion ar y tywod.


'Mae'r olaf i'r dŵr yn gorfod bwyta brechdan dywod!' gwaeddodd Siriol, wrth iddi ruthro at y môr, gyda Moli a Mali'n dynn ar ei sodlau.

Dim ond Poli oedd ar ôl, yn sefyll yn ddigalon o dan yr ymbarél, a'i

choesau'n crynu fel pysgodyn jeli. Unrhyw eiliad nawr, byddai ei ffrindiau'n troi a'i gweld hi ar y traeth, ac yn rhedeg yn ôl i fynd â hi at y môr.

Yn ofalus, tynnodd Poli ei hadenydd a'u hongian ar yr ymbarél gyda'r lleill. Yna cydiodd mewn brechdan o'r fasged bicnic, a chripian yn dawel fach i guddio y tu ôl i un o'r cytiau traeth.

'Fe fyddan nhw'n meddwl mod i wedi mynd i brynu hufen iâ,' meddyliodd.



Wrth iddi nofio, roedd Siriol yn sblasio dŵr i bobman, felly roedd ei ffrindiau'n gwneud eu gorau i gadw draw oddi wrthi. Roedd Moli'n nofio â'i phen uwchben y dŵr, rhag ofn iddi wlychu'i gwallt, tra bod Mali yn arnofio ar ei chefn, gan syllu ar yr awyr, a mwynhau teimlo tonnau'r môr yn ei chario. Ymhen ychydig, sylweddolon nhw fod Poli ar goll.

Roedd Mali yn siŵr ei bod wedi gweld Poli'n rhedeg gyda nhw at y môr.

'O leia, dwi'n *meddwl* mod i'n siŵr,' meddai.

Doedd Siriol ddim yn cofio gweld Poli'n rhedeg ar hyd y traeth, ond roedd hi'n meddwl ei bod wedi'i gweld hi yn y môr.

Dywedodd Moli na fyddai neb wedi gallu gweld Poli ta beth am fod Siriol yn sblasio gymaint!

Er bod y tair tylwythen yn teimlo fel pe baen nhw wedi bod yn nofio allan

i'r môr ers oesoedd, roedden nhw'n dal i allu cyffwrdd y tywod â'u traed, ac felly cerddon nhw'n ôl at y traeth.

'POLI!' gwaeddodd pawb. 'POLI, BLE WYT TI?'

Daeth un o dylwyth teg y dŵr atyn nhw.


'Oes 'na broblem?' holodd.

'Mae un o'n ffrindiau ni ar goll,' meddai Siriol.


'Roedden ni'n meddwl ei bod hi yma ar y traeth, ond does dim golwg ohoni.'

'Edrych!' ebychodd Mali. 'Ei hadenydd hi! Mae adenydd Poli o dan yr ymbarél! Fyddai hi byth yn mynd i unman, ar wahân i'r môr, heb ei hadenydd. Mae'n *rhaid* ei bod hi wedi ein dilyn ni i'r dŵr!'

Roedd Moli'n mwynhau drama'r sefyllfa, er ei bod hithau'n poeni am Poli, ac meddai, 'Ond dy'n ni ddim yn meddwl ei bod hi wedi ein dilyn ni allan!'



Doedd dim amser i'w golli. Tynnodd y dylwythen ddŵr gordyn i lenwi'i hadenydd ag aer a rhedodd i gyfeiriad y môr gan chwythu chwiban fach arian. Neidiodd y tylwyth dŵr eraill oddi ar eu cadeiriau a rhuthro i lawr y traeth at y môr.



Y tu ôl i'r cytiau, clywodd Poli y chwiban ac edrychodd yn betrus i weld beth oedd yn digwydd. Gallai weld Moli, Mali a Siriol yn sefyll gyda'i gilydd wrth ymyl y dŵr, a thair Tylwythen y Dŵr yn hedfan yn gyflym dros y traeth, eu hadenydd yn llenwi ag aer wrth iddyn nhw fynd.

Yn sydyn, sylweddolodd Poli beth oedd yn digwydd.

'Maen nhw'n meddwl mod i ar goll

yn y môr, ac maen nhw'n trio fy achub i!'

Saethodd Poli allan o'i chuddfan rhuthro at ei ffrindiau.



'Does dim angen i neb chwilio amdana i!' gwaeddodd, gan redeg tuag atyn nhw.

Trodd y tylwyth teg ati. Roedd gwallt cyrliog Mali yn gwbl fflat, roedd pob mymryn o liw wedi diflannu o wyneb Moli, ac roedd Siriol yn gafael yn dynn yn y ddwy.

Pan welodd hi nhw, dechreuodd Poli grio.

Doedd Siriol prin yn gallu dweud gair drwy ei dagrau. 'Roedden ni'n meddwl . . . roedden ni'n meddwl dy fod ti wedi *boddi*!'

Sylwodd un o Dylwyth Teg y Dŵr fod Poli wedi dod 'nôl, ac aeth yn syth at y ffrindiau.

'Wyt ti'n iawn?' gofynnodd i Poli. 'Ble oeddet ti?'

'Yn cuddio tu ôl i'r cytiau,' meddai Poli, a'i dagrau'n llifo i'r tywod.

'Pam?' gofynnodd Siriol.

Roedd yn bryd cyfaddef y cwbl. Datgelu'i chyfrinach. Y peth roedd hi wedi bod yn ei guddio oddi wrth ei ffrindiau ers blynyddoedd.

Doedd hi, Poli – oedd yn dda ym mhopeth, ac nad oedd byth yn methu – erioed wedi dysgu nofio.

'Dwyt ti ddim yn gallu nofio?' holodd Moli. 'Wel, sdim ots, mae 'na lawer o dylwyth teg sy'n ofni dŵr.'

'Dwi ddim yn ofni'r *dŵr*,' snwffiodd Poli. 'Dwi'n ofni *suddo*!'

Aeth Siriol at Poli a'i chofleidio. 'Pam na *ddwedaist* di rywbeth?'

'Mae pawb yn meddwl mod i'n dda am wneud popeth, felly ro'n i'n ofni cyfaddef bod 'na rywbeth nad o'n i'n gallu'i wneud,' meddai Poli drwy'i dagrau.

Rhoddodd y Dylwythen Ddŵr ei braich am ysgwydd Poli.


'Mae'n bwysig iawn dy fod ti'n dysgu nofio. Hyd yn oed os nad wyt *ti* angen cael dy achub, falle bydd rhywun arall mewn trafferth rhyw ddydd!'

'Dwi'n gwybod,' snwffiodd Poli. 'Ond dwi ddim yn gwybod ble i ddechre!'


'Beth am wers nawr, fan hyn, gyda fi ar y traeth?' meddai'r Dylwythen Ddŵr. 'Gei di fod yn Dylwythen Deg y Dŵr am y dydd!'

Gwenodd Poli'n hapus, felly estynnodd Tylwythen y Dŵr bâr o'r adenydd aer i Poli, a'i harwain at y dŵr.


'Fentra i hufen iâ y bydd Poli'n nofio'n wych cyn bo hir!' meddai Siriol.



Ac wrth i'r tair ffrind orwedd ar y tywod o dan yr haul llachar, roedden nhw'n gallu clywed Poli'n giglan ac yn sblasio – yn hapus yn y dŵr o'r diwedd.




# Cwsg Cythryblus



Yn ystod y wers am y 'Tylwyth Teg Enwog mewn Hanes', dechreuodd Siriol Swyn feddwl am yr hyn roedd hi am ei wneud ar ôl yr ysgol.

Rhwygodd ddarn bach o bapur o'i llyfr ysgrifennu, ysgrifennodd nodyn brysiog a'i basio o dan y ddesg at Moli. Darllenodd hithau'r nodyn, nodio'i phen, a'i basio 'mlaen at Mali.

Cododd Mali ei bawd yn slei a cheisio pasio'r papur at Poli, ond roedd Poli'n mwynhau'r wers gymaint fel na sylwodd ar Mali'n



gwthio'r nodyn tuag ati dros y ddesg.

Ond fe welodd Miss Ffosil, yr athrawes hanes y cyfan!

'Mali, gobeithio mai gwybodaeth ychwanegol am y tylwyth teg rydyn ni'n eu hastudio sydd yn y nodyn yma,' meddai, gan godi'r darn papur oddi ar y ddesg.

'Dyna drueni na fedra i wneud dymuniadau i mi fy hun,' meddyliodd Mali. 'Fe allwn wneud i mi fy hun ddiflannu!'

Darllenodd Miss Ffosil y nodyn, codi'i haeliau a'i daflu i'r bin sbwriel.

'Felly, rwy'n cymryd eich bod chi wedi gorffen yr holl waith cartref hanes gawsoch chi'r wythnos ddiwethaf? Am naw o'r gloch bore fory, rwy'n disgwyl gweld pentwr o lyfrau ar fy nesg!'

Gwaith cartref hanes? Roedden nhw wedi anghofio'r cyfan amdano!

* * *



Amser chwarae, aeth Siriol, Moli, Mali a Poli i eistedd gyda'i gilydd dan y Dderwen Fawr yn y cae.

'Roedd hwnna *mor* ofnadwy,' dywedodd Mali.

'Ro'n i'n edrych 'mlaen at gael y tair ohonoch chi draw heno i fwyta cacen siocled,' meddai Siriol. Roedd hi wedi pobi'r gacen ddoe, ac erbyn iddi ei gorchuddio ag eisin trwchus, tywyll, gludiog, doedd y darnau llosg ddim i'w gweld o gwbl.

Roedd Moli'n dechrau poeni.


'Ond beth am y gwaith cartref 'ma?

Dwi ddim wedi'i ddechrau eto, ac mae'n rhaid i ni ei roi i mewn fory!'

'Paid â chynhyrfu dy adenydd, Moli,' meddai Siriol, gan estyn i'w bag a thynnu'i llyfr allan. 'Y cyfan sy'n rhaid i ni ei wneud yw ysgrifennu am dylwythen deg enwog. All hynny ddim bod yn *rhy* anodd.'

Ar ôl iddi dynnu darn o gwm cnoi oedd yn sownd i'r clawr, cael gwared o friwsion hen fisged, ac edrych drwy dudalennau llawn dŵdls, daeth Siriol, o'r diwedd, o hyd i gyfarwyddiadau'r gwaith cartref.

'Dewiswch un dylwythen deg hanesyddol bwysig. Yn eich geiriau eich hun, disgrifiwch pam fod y dylwythen hon wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau tylwyth teg heddiw,' darllenodd Siriol.




'Ond beth ydyn ni'n mynd i'w *wneud*?' gwaeddodd Moli.

Edrychodd Poli – oedd wedi bod yn brysur yn darllen llyfr ac yn bwyta afal ar yr un pryd – yn bwyllog ar y tair.

'Mynd i lyfrgell yr ysgol, chwilio am lyfrau ar hanes y tylwyth teg, eu darllen nhw, dewis tylwythen deg, ac wedyn ysgrifennu amdani. Dyna wnes i.'

Edrychodd Siriol, Moli a Mali'n syn ar Poli.

'Beth?' holodd Siriol. 'Wyt ti wedi *gwneud* y gwaith cartref yn barod?'

'Mmmmm,' mwmiodd Poli, ei cheg yn llawn afal.

'Grêt – gallwn ni ei gopïo fe te,' meddai Moli, gan daflu'i breichiau i'r awyr mewn rhyddhad.


'Dwi wedi'i roi e i mewn yn barod,' meddai Poli, gan ddal i fwyta.

'A *ddwedest* ti ddim byd?' gofynnodd Mali.

'Wel, ro'n i'n gwybod na allen i mo'i

adael e tan
y funud olaf,'
atebodd Poli.
'Dwi'n mynd
allan heno.'

'Beth! I ble?
Gyda phwy?'
holodd ei
ffrindiau.



'Gofynnes i Perl, un o Dylwyth Teg y Dannedd, a allen i fynd allan gyda hi heno i weld Tylwythen Deg y Dannedd go iawn wrth ei gwaith. Fydda i ddim 'nôl gartref tan yn hwyr iawn.'

Roedd yn gwbl amlwg fod Poli'n cymryd ei phenderfyniad i fod yn Dylwythen Deg y Dannedd o ddifrif.

Cafodd Siriol syniad.

'Pam nad awn ni i gyd i'r llyfrgell, yna mynd 'nôl i fy nhŷ i er mwyn i ni wneud y gwaith gyda'n gilydd?'

Doedd Mali ddim yn siŵr.

'Os byddwn ni'n treulio'r noson i gyd yn sgwrsio a bwyta cacen, dwi ddim yn meddwl y bydd 'na ddigon o amser i'w orffen e. Fe fyddwn ni lan drwy'r nos!'

'Perffaith!' ebychodd Siriol. 'Gallwn ni gael parti pyjamas! Sdim ots *pa bryd* orffennwn ni'r gwaith os byddwch chi'n aros dros nos!'

'Wyt ti'n berffaith siŵr nad wyt ti'n gallu dod?' gofynnodd Moli i Poli, gan obeithio'n dawel bach y byddai modd ei pherswadio. Wedi'r cwbl, gallai Poli eu helpu nhw os byddai'r gwaith yn rhy anodd.

Ond ysgwyd ei phen wnaeth Poli. 'Na, sori, alla i ddim. Naill ai fe fydda i'n rhy hwyr neu'n rhy flinedig i ymuno â chi.'

* * *

Roedd cymaint o amser wedi mynd heibio ers y tro diwethaf iddyn nhw fod yn Llyfrgell yr Ysgol fel y llwyddodd Siriol, Moli a Mali i fynd ar goll yn y coridorau. Hedfanodd y tair i'r cyfeiriad hollol anghywir tuag at

swyddfa Brenhines y Tylwyth Teg, wrth iddi hithau hedfan allan.

'I ble ry'ch chi'n mynd, dylwyth teg ifanc?' holodd.

'Rydyn ni ar ein ffordd i'r llyfrgell,' meddai Siriol.


'Rydyn ni am weithio ar ein prosiect hanes,' ychwanegodd Mali.

'Dyna hyfryd,' meddyliodd Brenhines y Tylwyth Teg gan hedfan i'r cyfarfod staff. 'Mae'n braf gweld tylwyth teg sy'n awyddus i wneud eu gwaith cartref, yn hytrach na'i adael tan y funud olaf!'

* * *

Roedd silffoedd y llyfrgell yn llawn i'r ymylon o lyfrau ar bob pwnc dan haul. Safodd y tylwyth teg mewn grŵp, yn edrych o'u cwmpas mewn penbleth.

Ymddangosodd coron uwchben pentwr o lyfrau, a phâr enfawr o sbectol yn ei dilyn. Roedden nhw'n eiddo i Miss Llywela Llyfrbryf, llyfrgellydd yr ysgol. Er bod Miss Llyfrbryf yn hoffi gweld y tylwyth teg ifanc yn darllen, doedd hi *ddim* yn hoffi eu gweld nhw'n gwneud y lle'n anniben ac yn gosod y llyfrau roedden nhw wedi'u benthyg yn ôl ar y silff anghywir.



'Fedrwch chi'n helpu ni i ddod o hyd i wybodaeth am dylwyth teg enwog?' gofynnodd Siriol i Miss Llyfrbryf, gan ddangos y gwaith cartref hanes iddi.

Aeth cryndod drwy gorff Miss Llyfrbryf wrth weld llyfr blêr Siriol. Cyfeiriodd hi nhw draw at y silffoedd hanes.

'Byddwch yn ofalus *da chi*,' meddai. 'Mae rhai o'r llyfrau hyn yn hen *iawn*!'

* * *

Sylweddolodd Siriol a'i ffrindiau fod edrych drwy'r llyfrau a darllen am dylwyth teg enwog yn llawer mwy o hwyl nag oedden nhw wedi'i

ddychmygu. Roedd 'na straeon am dylwyth teg oedd wedi hedfan ar draws yr anialwch, neu at y sêr mwyaf llachar yn y gofod. Darllenon nhw am dylwythen oedd wedi dyfeisio adenydd oedd yn rhedeg ar olau'r haul, a bardd-dylwythen enwog oedd bob amser yn odli wrth siarad – hyd yn oed pan nad oedd hi'n ysgrifennu cerddi!


Penderfynodd Siriol ysgrifennu am dylwythen deg o'r enw Llio Heulwen, a fu'n ddisgybl yn Ysgol y Naw Dymuniad flynyddoedd lawer yn ôl. Llio oedd y dylwythen gyntaf i wneud powdr allan o heulwen yr haf, sef un o gynhwysion pwysicaf y llwch pefriog modern. Oni bai am y gwaith roedd Llio wedi'i wneud, dim ond ychydig bach iawn o lwch pefriog fyddai'n cael ei gynhyrchu.

Roedd Mali'n gyffro i gyd wrth ddarllen am rai enwog ymhlith Tylwyth Teg y Blodau, ac ysgrifennai nodiadau'n brysur yn ei llyfr.

'Oeddech chi'n gwybod mai enw'r Dylwythen Blodau gyntaf oedd Rhoswen?' gofynnodd i Moli a Siriol. 'Hi oedd y dylwythen wnaeth ddarganfod y lili fythol.'

Roedd Moli'n cael trafferth dod o hyd i dylwythen enwog i ysgrifennu amdani. Roedd pob un yn ddiddorol, ond pa un ohonyn nhw oedd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywyd tylwythen fodern fel Moli?






Yna, yn sydyn, canodd ffôn symudol Moli.

Ebychodd Siriol a Mali, a chuddio y tu ôl i'r silffoedd. Doedden nhw ddim i fod i ddefnyddio'u ffonau yn yr ysgol, a *byth* yn y llyfrgell.

Ceisiodd Moli ei ddiffodd, ond roedd hi'n rhy hwyr. Roedd Miss Llyfrbryf wedi'i gweld hi, ac wrth weld y ffordd roedd hi'n hedfan, roedd Moli'n gwybod ei bod mewn trwbwl MAWR.

'Gymera i'r ffôn yna, nawr!' sibrydodd yn gwta wrth Moli. 'Gei di ei gasglu gen i yr un amser fory.'

'Pedair awr ar hugain heb fy ffôn!' sibrydodd Moli. 'Beth *wnaf* i?'



'Beth oedd pobl yn ei wneud cyn dyddiau'r ffôn?' gofynnodd Siriol.

'Mae pwy bynnag a ddyfeisiodd y ffôn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau ni!'

'Dyna fe!' ebychodd Moli. '*Dyna* pwy dwi'n mynd i ysgrifennu amdani! Y dylwythen wnaeth ddyfeisio'r ffôn!'

Yng nghanol *Hanes Byd y Tylwyth Teg, Cyfrol 3*, daethon nhw o hyd i enw Tanwen Tincial, dyfeisydd ffôn y tylwyth teg.

'Diolch byth am Tanwen!' sibrydodd y tair wrth ei gilydd wrth wthio'r llyfrau'n ôl ar y silffoedd, a chasglu'r nodiadau, ysgrifbinnau a phensiliau, ac er mawr ryddhad i Miss Llyfrbryf, aethant allan o'r llyfrgell.

* * *

'Nôl yn nhŷ Siriol, gyda chacen siocled a lemonêd pefriog o'u blaenau, aeth y ffrindiau ati i orffen eu gwaith cartref.

Roedd Siriol yn cael trafferth dechrau arni. Edrychodd ar y cwestiwn ar

y papur, a'r nodiadau roedd hi wedi'u gwneud yn y llyfrgell.

Copïodd y cwestiwn yn daclus i mewn i'w llyfr ysgrifennu, tynnu llinell oddi tano, a thynnu llun wyneb bach â gwên fel atalnod llawn.

Yna dechreuodd gnoi top ei hysgrifbin, gosododd y pensiliau lliw yn nhrefn lliwiau'r enfys, ac edrychodd ar ei ffrindiau'n sgriblan yn brysur.

'Os yw Llio Heulwen yn gallu gwneud llwch allan o heulwen yr haf, does bosib y galla i wneud fy ngwaith cartref!' meddyliodd Siriol, gan ddechrau ysgrifennu.



Erbyn iddyn nhw orffen y gwaith i gyd, roedd hi'n dywyll ac yn wyntog y tu allan, ac yn arllwys y glaw.

'Dwi'n teimlo'n gysglyd iawn,' meddai Mali, gan ddylyfu gên. Roedd hi eisoes yn gwisgo'i choban ac yn eistedd ar wely Siriol, a'i thraed yn glyd o dan y blancedi pinc.

'Rydw innau'n flinedig hefyd,' meddai Siriol. Roedd ei llygaid hi'n teimlo mor drwm, bron iawn fod angen matsys i'w cadw nhw ar agor.

Swatiodd Siriol a Mali o dan y blancedi ar un pen i'r gwely, a gwnaeth Moli le iddi'i hun yn y pen arall. Roedden nhw'n rhy flinedig i gosi traed ei gilydd, hyd yn oed. Ond yr eiliad y diffoddodd Siriol y golau, dechreuodd deimlo'n gwbl effro.

Tra bod y ddwy arall yn cysgu, gwrandawai Siriol ar y gwynt yn rhuo a'r glaw yn curo yn erbyn y ffenest.

Gan orwedd yn gwbl lonydd rhag ofn iddi ddihuno'r lleill, edrychodd



Siriol draw at y bwlch o dan y bleind oedd yn gorchuddio'r ffenest. Gallai weld y lleuad yn disgleirio, gan lenwi'r ystafell â golau gwyn.

Yn sydyn, diflannodd y lleuad, ac roedd yr ystafell yn dywyll fel bol buwch.

Dechreuodd calon Siriol guro'n gyflymach. Yna, o'r tu allan, clywodd sŵn griddfan isel.

'Wyt ti'n effro?' sibrydodd Siriol wrth Mali, ond dal i chwyrnu a wnaeth honno.

Symudodd Siriol fysedd ei thraed ar waelod y gwely, gan gosi Moli.

'Wyt ti'n effro, Moli?'

'Mmmm . . .' atebodd Moli'n gysglyd.

'Wyt ti'n gallu clywed y sŵn 'na . . . y griddfan 'na?'

'Dim ond y gwynt yw e,' mwmiodd Moli gan droi ar ei hochor.

'Moli, gwranda!' sibrydodd Siriol. 'Mae 'na rywbeth yna!'

'Y gwynt yw e, Siriol,' atebodd Moli. 'Oni bai mai . . . Y Peth sy 'na!'

Eisteddodd Siriol i fyny'n syth. 'Y Peth?'

Erbyn hyn roedd Mali wedi dihuno hefyd, felly estynnodd Siriol am swits y golau.

'Beth sy'n digwydd?' gofynnodd Mali gan rwbio'i llygaid.

'Dywedodd Moli mai rhyw Beth sy'n gwneud y sŵn griddfan 'na,' gwichiodd Siriol.

Cododd Moli ar ei heistedd gan dynnu'r blancedi'n dynn o'i chwmpas.

'Nid *unrhyw* beth,' meddai mewn llais isel, brawychus. '*Y* Peth! Does neb erioed wedi gweld Y Peth. Ond maen nhw'n gwybod pan fydd e yna.'

'S-s-s-ut?' sibrydodd Siriol, oedd wedi mynd i guddio o dan y blancedi. Doedd dim byd ond ei llygaid llydan-agored, ofnus yn y golwg.

'Oherwydd ei fod yn griddfan ac yn wylofain, ac mae hyd yn oed y lleuad yn cuddio pan fydd e o gwmpas!'

Cofiodd Siriol iddi weld y lleuad yn diflannu, a thynnodd y blancedi dros ei phen yn llwyr.

Yr eiliad honno, gallai pawb glywed sŵn griddfan a gwichian arall, fel hen bâr o adenydd rhydlyd.


'Ydi e wedi mynd?' sibrydodd Mali. 'Ydi Y Peth wedi mynd?'

Roedd Moli'n cael hwyl erbyn hyn.

'Dydi Y Peth byth yn mynd i ffwrdd. Lle bynnag y byddwch chi'n cuddio, fe wnaiff Y Peth ddod o hyd i chi!'

Erbyn hyn roedd Siriol a Mali'n wirioneddol ofnus, ac er mai dim ond ychydig o hwyl oedd y stori, roedd hyd yn oed Moli'n dechrau poeni.

'Ble mae e'n aros pan fydd e'n



dod?' gofynnodd Siriol, a'i llais yn crynu.

'Mae e yn yr ystafell fyw!' gwichiodd Mali. 'Gwrandewch!'

'Jôc ydi e,' meddai Moli, a'i bol yn dechrau troi a throsi mewn ofn wrth iddi gydio'n dynn yn nillad y gwely. 'Dim ond esgus o'n i. Dyw'r Peth ddim yn bod mewn gwirionedd.'

Ond doedd hyd yn oed Moli ddim yn gallu gwadu'r ffaith bod sŵn rhyfedd yn dod o'r ystafell fyw.

*Tap. Tap. Tap.*

'Y gwynt yw e,' meddai hi, gan geisio'i pherswadio'i hun.

'Dyw'r gwynt ddim yn gwneud sŵn fel yna!' meddai Siriol dan ei hanadl. 'Y Peth yw e!'

Stopiodd y sŵn yn sydyn.

Suddodd Moli'n ôl ar y gwely. Roedd y lleuad fel pe bai'n chwerthin arni o'r tu ôl i'r bleind.

'Dwi'n mynd i dynnu'r bleind i lawr yn dynn, ac wedyn gallwn ni gysgu,' meddai, gan fynd ar flaenau'i thraed at y ffenest.

Wrth iddi gyffwrdd â'r bleind – 'AAAAAA!!' – neidiodd yn ôl mewn braw o'r ffenest, yn wyn fel yr eira ac yn ysgwyd fel jeli.

'Beth yw e?' gwaeddodd Siriol.

'Y Peth sy 'na?' sgrechiodd Mali, wrth i Moli neidio 'nôl i mewn i'r gwely.

'Wyneb . . . fe welais i wyneb . . .' ebychodd Moli.

Cuddiodd y tair o dan y blancedi gan gydio'n dynn yn ei gilydd.



Dechreuodd y sŵn tapio unwaith eto, gyda chri arswydus yn ei ddilyn. Roedd yn swnio'n agosach nag erioed.

Roedd Siriol yn fwy ofnus nag y bu erioed yn ei bywyd, ond wrth weld ei ffrindiau'n crynu mewn ofn, penderfynodd fod yn rhaid iddi fod yn ddewr. Roedd angen iddi hi fod yn gryf – er mwyn pawb arall.

'Wyt ti'n *siŵr* mai ti feddyliodd am y stori am Y Peth?' gofynnodd i Moli yn nhywyllwch y blancedi.

'Y-y-ydw,' meddai Moli, a'i dannedd yn clecian mewn ofn.

*Tap tap tap* aeth y sŵn eto.

Roedd yn cyflymu erbyn hyn.

Yn araf bach, cododd Siriol ei phen dros y blancedi, ond cadwodd ei llygaid ar gau.

Yn sydyn, roedd y tapio'n uwch o lawer.

*BANG BANG BANG.*

Dechreuodd Siriol deimlo ychydig yn fwy dewr, ac agorodd ei llygaid gan symud yn araf at y ffenest ar ei choesau simsan. Anadlodd yn ddwfn a chodi'r bleind yn sydyn. A phan welodd beth oedd yna, cafodd sioc enfawr!

Poli oedd yno, yn curo ar y ffenest ac yn gweiddi 'Gadewch fi i mewn!'

* * *

'Doedd dim llawer o ddannedd i'w casglu heno, felly fe benderfynais i ddod draw i'r parti pyjamas!' meddai Poli, gan ddringo drwy'r ffenest ac ysgwyd y glaw oddi ar ei hadenydd.

'Fe drïais i guro ar y drws, ond chlywodd neb fi, felly dyma fi'n hedfan lan a churo ar y ffenest.'





'Chlywodd neb mohonot ti,' eglurodd Siriol, gan estyn tywel i Poli. 'Roedden ni'n cuddio o dan y blancedi!'

'Ond fe welaist ti fi, Moli,' meddai Poli. 'Pam na wnest fy ngadael i mewn bryd hynny?'


'Roedd hi'n meddwl mai Y Peth oeddet ti,' meddai Mali.

'Fy nhro i yw hi i wneud y siocled poeth, dwi'n meddwl!' meddai Moli, gan fynd i gyfeiriad y gegin, ei bochau'n fflamgoch. 'Ac wedyn gei di ddweud hanes dy noson di wrthon ni, Poli!'





# Te Parti Trafferthus



Roedd Siriol Swyn a'i ffrindiau ar y ffordd adref o'r ysgol, yn sgwrsio am eu gwersi'r diwrnod hwnnw.

Yn sydyn cofiodd Siriol rywbeth *llawer* mwy cyffrous.

'Poli! Dim ond cwpwl o ddyddiau sydd 'na tan dy ben-blwydd di, a dwyt ti'n *dal* heb penderfynu a wyt ti am gael parti!'

Roedd Moli'n ceisio hedfan a darllen cylchgrawn ar yr un pryd. Doedd hi ddim yn talu sylw, ac yn sydyn trawodd yn erbyn Mali, oedd wedi aros i arogli rhosod pinc.

'Dwi wedi bod yn rhy brysur hyd yn oed i feddwl am fy mhen-blwydd,' meddai Poli wrth Siriol, wrth iddi helpu i godi Moli a Mali ar eu traed. 'Mae'n siŵr y dylwn i wneud *rhywbeth*.'

'Gad ti bopeth i fi!' meddai Siriol yn llawen. 'Fe wnaf i gacen pen-blwydd flasus i ti. A dweud y gwir, fe wnaf i *lwyth* o gacennau bendigedig!'

Edrychodd y tylwyth teg ar ei gilydd yn betrus gan godi'u haeliau. Roedd Siriol wrth ei *bodd* yn coginio, ac yn gwneud yn aml. Ond doedd hi byth yn dilyn rysáit, a dyna'r broblem.

Ambell waith byddai hi'n anghofio darllen y rysáit yn iawn cyn dechrau arni, neu byddai'n sylweddoli nad oedd yr holl gynhwysion ganddi, neu byddai'n anghofio cynhesu'r ffwrn. Roedd rhywbeth *wastad* yn mynd o chwith pan oedd Siriol yn coginio.

Gwelodd Siriol ei ffrindiau'n edrych arni mewn ffordd 'wyt ti'n siŵr fod hyn yn syniad da?'

'Sdim angen i chi boeni!' meddai. 'Dewch i fy nhŷ i ddydd Sadwrn am bedwar o'r gloch i gael te parti pen-blwydd!'



A gyda cham a naid, hedfanodd Siriol adref i gynllunio te parti Poli.

'Fe af i draw'n gynnar at Siriol,' meddai Mali wrth y lleill. 'Mae'n rhaid i *rywun* gadw llygad arni!'

* * *

Drwy'r dydd Gwener yn yr ysgol, roedd Siriol yn meddwl am y gacen y byddai'n ei phobi.

'Wyt ti'n *siŵr* dy fod ti am wneud hyn, Siriol?' gofynnodd Poli, ar ôl i Siriol ei holi am y canfed tro a fyddai'n well ganddi gael jam, hufen ynteu'r ddau yng nghanol y gacen. 'Fe fyddwn i'n ddigon hapus i fynd i'r

Hwylfan Hufen Iâ os yw e'n ormod o drafferth.'

'Mae popeth wedi'i drefnu!' dywedodd Siriol wrth Poli, gan ysgrifennu syniad arall am gacen ar ei rhestr, oedd yn tyfu'n gyflym.


* * *

Aeth Siriol â phentwr mawr o lyfrau coginio i'r gwely gyda hi gan farcio'r ryseitiau â darnau bach o bapur pinc. Cymerodd oesoedd iddi fynd i gysgu, a phan lwyddodd i gysgu o'r diwedd, breuddwydiodd ei bod wedi cwympo i mewn i bowlen enfawr o gymysgedd cacen, a'i bod wedi bwyta gormod i allu dringo allan!

Pan ddihunodd y bore canlynol, nid yn unig roedd hi'n hwyrach nag a feddyliai, ond roedd yr holl ddarnau bach o bapur pinc wedi cwympo allan o'r llyfrau coginio, gan ei bod wedi cysgu gyda'r llyfrau ar y gwely.

'Sdim ots,' meddyliodd. 'Dwi'n siŵr y galla i gofio'r ryseitiau.

Dwi wedi'u darllen nhw gymaint o weithiau!'




Edrychodd ar y rhestr o gacennau oedd i'w pobi. Byddai'n rhaid iddi weithio'n gyflym os oedd hi am orffen popeth erbyn pedwar o'r gloch!

* * *

Cyneuodd Siriol y ffwrn.

'Fe wna i adael iddi gynhesu am ryw ddeng munud,' meddai wrthi'i hun. 'Yna fe wna i ddechrau ar y gacen pen-blwydd siocled.'

Crwydrodd allan i'r ardd, a gwelodd Moli'n hedfan heibio. Pan welodd honno Siriol, arhosodd am sgwrs.

'Dwi'n mynd i gael trin fy ngwallt,' meddai Moli. 'Dwi'n mynd i roi cynnig ar Gwallt Godidog am newid.'

Roedd Moli a Siriol yn dal i sgwrsio am wallt pan grychodd Moli ei thrwyn.

'Wyt ti'n gallu arogli rhywbeth yn llosgi?' gofynnodd i Siriol. 'Oes rhywbeth yn y ffwrn gen ti?'

'Ddim eto,' atebodd Siriol. 'Tybed oes 'na rywun wedi cynnau coelcerth?'

Roedd yr arogl llosgi'n cryfhau.


'Wyt ti'n *siŵr* nad rhywbeth rwyt ti'n ei goginio yw e?' gofynnodd Moli, gan gychwyn i lawr y llwybr at dŷ Siriol.

'Wir, nid fi sy ar fai!' chwarddodd Siriol, yn ei dilyn. 'Does gen i ddim byd yn y ffwrn i'w losgi!'

Ond wrth i'r ddwy fynd i mewn i gegin Siriol, roedd mwg du trwchus yn codi'n gymylau o'r ffwrn.

'Paid ag agor y drws!' gwaeddodd Moli. 'Diffodda'r ffwrn ac agor y ffenestri!'

Safodd Moli a Siriol yn syllu ar y ffwrn. Pan stopiodd y mwg, agorodd Siriol ddrws y ffwrn yn ofalus a syllu i mewn. Gyda phâr enfawr o fenig



ffwrn am ei dwylo, estynnodd i mewn a thynnu gwrthrych bach du allan.

'Beth yw e?' gofynnodd Moli, gan ei brocio â llwy bren.

'Dwi'n credu mai tylwythen deg sinsir *oedd* hi. Mae'n rhaid fy mod i wedi'i gadael yn y ffwrn y tro diwethaf i mi bobi!' meddai Siriol. 'Edrych, mae ei choron i'w gweld o hyd!'



Ffarweliodd Moli er mwyn mynd i gael trin ei gwallt, a dechreuodd Siriol wneud y gacen siocled. Roedd y ffwrn yn dal i fod yn boeth iawn.


'Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl aros tan i'r ffwrn boethi cyn dechrau coginio,' meddyliodd Siriol wrth droi'r gymysgedd. 'Dim ond fi sy'n gorfod aros iddi oeri!'

Roedd y gymysgedd yn hufennog ac euraidd. Roedd yn bryd iddi ychwanegu'r powdr siocled! Edrychodd Siriol yn y cwpwrdd, ond doedd dim i'w weld yno.

'Dwi'n *gwybod* ei fod e yma yn rhywle,' meddyliodd gan syllu ar y tuniau a'r pacedi.

O'r diwedd, yn y cefn, gwelodd yr hyn roedd hi'n chwilio amdano. Ond pan agorodd y caead, yn lle powdr siocled, y cyfan oedd yno oedd twlpyn brown, solet. Edrychodd Siriol ar y dyddiad 'defnyddiwch erbyn' ar waelod y tun. Dwy flynedd yn ôl!

Gwnaeth ei gorau i dorri darnau oddi ar y twlpyn gydag ochr ei ffon hud, ond y cyfan y llwyddodd i'w wneud oedd torri pigyn y seren. Doedd dim *gobaith* ei doddi gyda dŵr poeth, hyd yn oed, a dim ond creu tolc yn y tun a wnaeth hi wrth ei guro ar lawr.




Edrychodd Siriol ar y cloc. Roedd hi bron yn brynhawn! Doedd dim amser ganddi i fynd i Dre'r Blodau i brynu rhagor o bowdr siocled. Byddai'n rhaid iddi droi'r gymysgedd yn gacennau bach. Fyddai dim ots gan Poli.

Wrth iddi fynd ati i roi'r gymysgedd mewn casys papur pert, penderfynodd ychwanegu ychydig rhagor o flawd hunan-godi, am lwc.

* * *

Roedd cymysgedd y cacennau bach yn codi'n fendigedig yn y

ffwrn, felly dechreuodd Siriol wneud fflapjacs.

'Mae popeth yn rhedeg fel wats,' meddyliodd wrth iddi wasgu'r gymysgedd i mewn i ddau dun pobi mawr arian.

'Dyna welliant,' meddai, wrth dynnu'r cacennau bach euraidd allan o'r ffwrn a'u gosod ar resel i oeri.

Ar ôl gosod y fflapjacs yn y ffwrn, gosododd yr amserydd ar gyfer pymtheg munud. Gan nad oedd unrhyw bowlenni glân ar ôl i wneud cwcis ceirios, dechreuodd olchi'r llestri, â'i breichiau'n ddwfn yn y swigod.

O gornel ei llygaid fe sylwodd yn sydyn bod rhywbeth wedi newid ar y rhesel o gacennau bach. Yn lle deuddeg o gacennau, dim ond un ar ddeg oedd yno bellach. Roedd hi'n *siŵr* ei bod hi wedi llenwi deuddeg o gasys, ond falle ei bod wedi gwneud camgymeriad. Funud yn ddiweddarach, edrychodd eto. Y tro hwn dim ond deg oedd yno!

Syllodd Siriol yn syn ar y cacennau. Bob yn un, o flaen ei llygaid, cododd y cacennau a hedfan allan drwy'r ffenest agored ac ar draws yr ardd.



Roedd hi wedi rhoi cymaint o flawd hunan-godi yn y gymysgedd nes eu bod nhw'n hedfan i ffwrdd wrth iddyn nhw oeri!

Rhuthrodd Siriol i'r ardd a rhedeg i lawr y llwybr, ond roedd hi'n rhy hwyr.

Roedd y cacennau'n hedfan i ffwrdd i gyfeiriad Tre'r Blodau.

Ac wrth i Siriol feddwl na allai pethau waethygu, cofiodd am y fflapjacs. Roedd amserydd y ffwrn wedi canu, ond doedd Siriol ddim wedi'i glywed gan ei bod ar waelod yr ardd!

Gan ruthro'n ôl i'r tŷ, agorodd ddrws y ffwrn a thynnu allan y ddau dun o fflapjacs – roedden nhw'n galed, wedi llosgi'n ulw ac yn sownd yn y tuniau.

Eisteddodd Siriol wrth fwrdd y gegin a'i phen yn ei dwylo.

'Beth yn y byd ydw i'n mynd i'w wneud?' griddfanodd.

'Cer i'r siop gacennau!' meddai llais.


Edrychodd Siriol i fyny a dyna lle'r oedd Mali yn edrych ar y llanastr o gwmpas ei ffrind druan.

'Beth wyt ti'n ei wneud yma?' holodd Siriol, gan sychu'i llygaid ar y faneg ffwrn.

'Wel, mae 'na res o gacennau bach yn hedfan dros Dre'r Blodau,' meddai Mali, gan brocio'r fflapjacs llosg. 'Fe wnes i ddyfalu eu bod nhw wedi dod o dy dŷ di.'

* * *

Cytunodd Siriol â Mali mai'r unig ffordd o gynnal y te pen-blwydd oedd drwy fynd i'r siop gacennau, ond pan gyrhaeddon nhw'r Bynsen Bert, doedd dim un gacen ar ôl.



'Does dim cacennau ar ôl o *gwbl?*' gofynnodd Siriol yn bryderus i'r fenyw yn y siop.

Ysgwyd ei phen wnaeth y fenyw.

'Mae'n ddrwg gen i, ond fe ddaeth rhywun i mewn a phrynu pob cacen, bynsen a bisgeden yn y siop.'

* * *

Aeth Siriol a Mali allan o'r siop ac eistedd o dan goeden enfawr.

Cafodd Siriol syniad.

'Mali, wnei di drio dymuno am gacennau i mi?' Oedodd Siriol am eiliad, gan gofio arwyddair y tylwyth teg, sef bod yn rhaid defnyddio dymuniad er lles pobl eraill.

Ond doedd Mali ddim am fentro.

'Ti'n cofio pan wnes i drio gwneud cais hud am sgons yn y dosbarth coginio?' gofynnodd i Siriol. 'Roedden nhw mor drwm ac mor galed â cherrig.'

Roedd Moli'n dal i honni bod bys ei throed yn boenus ar ôl i sgon syrthio arno.

'Owwwww!' sgrechiodd Siriol.


'Ie, a dyna ddywedodd Moli hefyd,' cofiodd Mali.

'Na. O, mae 'na afal newydd syrthio ar fy mhen i!'

Edrychodd y tylwyth teg i fyny a sylweddoli eu bod yn eistedd o dan goeden oedd yn llawn afalau.

'Afalau taffi!' ebychodd Siriol. 'Gallwn ni wneud afalau taffi i Poli!'

Hedfanodd Mali i fyny i'r goeden a dechrau bwrw'r canghennau'n ysgafn â'i ffon hud. Safodd Siriol oddi tani, gan ddal y ffrwythau yn ei sgert.



'Sdim digwydd bod ffyn lolipop gen ti, oes e?' holodd Mali.

'Cannoedd!' meddai Siriol, gan gofio bod ganddi ddrôr yn llawn ohonyn nhw yn ei thŷ. 'Ro'n i'n gwybod y bydden nhw'n ddefnyddiol ryw ddydd!'

* * *

Pan gyrhaeddon nhw'n ôl i gegin Siriol, aethon nhw ati ar unwaith i olchi'r afalau a gwthio'r ffyn i mewn iddyn nhw. Ar ôl edrych mewn un o lyfrau rysáit Siriol, gwnaethon nhw lond padell fawr o gymysgedd taffi, a throchi'r afalau ynddo.

'Diolch byth fod *rhywbeth* wedi mynd yn iawn!' dywedodd Siriol, gan edmygu'r rhesi o afalau'n dripian â thaffi disglair, melys.

Roedd hi bron yn bedwar o'r gloch! Cyn hir byddai Poli a Moli'n cyrraedd.

Gosododd Siriol a Mali anrhegion a chardiau Poli ar y bwrdd a llenwi jygiau â lemonêd.


Roedd bol Siriol yn dechrau rymblan.

'Yng nghanol yr holl ruthro, fe wnes i anghofio cael cinio!' meddai wrth Mali.

'Pam na chymeri di afal taffi?' meddai Mali. 'Mae 'na ddigon yma!'

Cododd Siriol un o'r afalau gan suddo'i dannedd drwy'r taffi gludiog ac i mewn i'r afal caled. Ond pan geisiodd frathu unwaith eto, roedd ei dannedd yn gwbl sownd yn y taffi gludiog.

Wrth iddi wneud ei gorau glas i dynnu'r afal taffi o'i cheg, roedd y taffi'n gludo'n dynnach o gwmpas ei dannedd.



'Ydi e'n flasus?' holodd Mali, gan edrych ar yr afalau, heb sylwi bod Siriol, â'i llygaid ar agor led y pen, yn pwyntio'n wyllt at ei cheg.

Gwnaeth Siriol ryw sŵn aneglur – rhywbeth tebyg i 'Mmmmm'.

'Wel, os felly, mi gaf i un fy hun,' dywedodd Mali. Wrth iddi frathu i mewn i'r afal gludiog, trodd a gweld Siriol, ei cheg yn sownd yn yr afal taffi, yn trio'i gorau i ddweud wrthi am beidio â'i fwyta. Rhy hwyr!

Ceisiodd y tylwyth teg eu gorau glas i dynnu'r afalau allan ond, wrth dynnu, roedd eu dannedd yn teimlo fel pe baen nhw'n cael eu tynnu allan.

Canodd y ffôn ac atebodd Siriol ef.

'Ynngg – ho,' meddai.

'Siriol! Poli sy 'ma. Fe fydda i ychydig yn hwyr. Wyt ti'n iawn?'

Ceisiodd Siriol ei gorau i ddweud 'ydw', ond beth glywodd Poli oedd 'nnggwww'.


Roedd Poli'n teimlo'n bryderus nawr.

'Ydi Mali yna? Gaf i siarad â hi?'

Estynnodd Siriol y ffôn i Mali, a llwyddodd honno i wneud cyfres o seiniau digon aflafar cyn rhoi'r ffôn i lawr.

* * *

Hedfanodd Poli drwy'r drws ar wib.



Doedd hi ddim yn gallu credu'i llygaid pan welodd ei ffrindiau'n eistedd wrth fwrdd y gegin, yn hollol dawel, gydag afal taffi mawr yn sownd yng nghegau'r ddwy!

Gan mai cegin Siriol oedd hon,

a gan fod Siriol wedi bod yn coginio, doedd dim angen gofyn beth oedd wedi digwydd. Yn ofalus iawn, tynnodd Poli'r afalau o gegau ei ffrindiau, gan anwybyddu eu gwichian a thorri i ffwrdd unrhyw ddarnau o daffi oedd yn sownd. O'r diwedd, roedd Mali a Siriol yn rhydd.


'Rwyt ti'n mynd i fod yn wych fel Tylwythen Deg y Dannedd!' ebychodd Siriol, gan lyncu gwydraid o lemonêd. 'Ro'n i'n meddwl y bydde fy nannedd i'n sownd i'r afal taffi 'na am byth!'

'Diolch byth mod wedi galw heibio'r Bynsen Bert i brynu cacennau!' meddai Moli, wrth gerdded drwy'r drws â blwch yn llawn o'r cacennau mwyaf blasus yr olwg a welodd y pedair erioed.

'*Ti* oedd e!' meddai Siriol wrth Moli. 'Ti brynodd yr holl gacennau! Sut oeddet ti'n gwybod mod i'n cael diwrnod trafferthus?'

'Fe welais i'r cacennau bach yn hedfan dros Tre'r Blodau y bore 'ma,' atebodd Moli, gan osod canhwyllau yn un o'r cacennau. 'Ro'n i'n meddwl falle byddai'r rhain yn ddefnyddiol.'

Gwelodd Poli olwg braidd yn siomedig ar wyneb Siriol, a rhoddodd ei braich am ei hysgwyddau.



'Dwi'n credu ei fod yn beth hyfryd fod Moli wedi prynu'r holl gacennau yna, ond' – a winciodd ar Moli – 'mae'r ffaith dy fod ti wedi trio dy orau i wneud rhai i mi yr un mor hyfryd. Y ffaith dy fod wedi meddwl sy'n bwysig.'

'Paid â phoeni,' meddai Siriol gan wenu, 'bydd popeth yn mynd fel wats y flwyddyn nesaf!'



